***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1352 (Cy.100)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Hawliau Ailfynediad a Fforffediad (Swm a Chyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *17 Mai 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mai 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 167(1) a 167(5) a 179(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hawliau Ailfynediad a Fforffediad (Swm a Chyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i anheddau yng Nghymru a feddiennir o dan les hir(**2**).

**Swm a chyfnod rhagnodedig**

**2.**—(1) £350 yw'r swm rhagnodedig at ddibenion is-adran 1(a) o adran 167 (methu â thalu swm bychan am gyfnod byr) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(2) Tair blynedd yw'r cyfnod rhagnodedig at ddibenion is-adran (1)(b) o'r adran honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
17 Mai 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2002 p.15. *Gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 167(5) a'r diffiniad o "appropriate national authority" yn adran 179(1).
(**2**) O ran "dwelling" a "long lease", *gweler* adran 167(5) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.
(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 167(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 yn atal landlord sydd o dan les hir ar annedd rhag arfer hawl ailfynediad neu fforffediad os bydd tenant yn methu â thalu swm wedi'i wneud o rent, taliadau gwasanaeth neu daliadau gweinyddu (neu gyfuniad ohonynt) oni bai bod y swm sydd heb ei dalu yn fwy na'r swm rhagnodedig neu'n swm sydd wedi'i wneud o swm a fu'n daladwy am fwy na chyfnod rhagnodedig neu'n swm sy'n cynnwys swm o'r fath.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran anheddau yng Nghymru yn unig, yn rhagnodi'r swm o £350 a chyfnod o dair blynedd.